Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

10 Hydref 2012

Annwyl Weinidog

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol—Ymchwiliad i bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol**

Fel y byddwch yn ymwybodol, ym mis Gorffennaf 2012, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, cawsom gryn dipyn o dystiolaeth a oedd yn berthnasol i'ch penderfyniad ym mis Mai 2012 i sefydlu gweithgor i ystyried sut y gallai swyddogaethau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru gael eu huno â swyddogaethau sefydliadau eraill, gan gynnwys Cadw.

Gad fod y rhan hon o ymchwiliad y Pwyllgor yn sensitif i amser, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd wedi dod i law.

Mae'r cwestiwn ymghynghori a ofynnwyd gan y Pwyllgor ar y mater hwn fel a ganlyn: *Beth fyddai manteision ac anfanteision cyfuno swyddogaethau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru â swyddogaethau sefydliadau eraill, gan gynnwys Cadw?*

Cafodd y Pwyllgor 83 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymchwiliad. Cred rhai ymatebwyr y byddai cyfuno'r swyddogaethau hyn yn arwain at fanteision damcaniaethol, a chred lleiafrif y byddai mwy o fanteision nag anfanteision yn dod i'r amlwg. Serch hynny, o ran niferoedd ar y lleiaf, roedd gwrthwynebiad llethol i'r syniad o uno swyddogaethau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru gyda

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : Pwyllgor.CCLlL@cymru.gov.uk

swyddogaethau sefydliadau eraill, gan gynnwys Cadw—yn enwedig pe byddai'r cynllun uno hwn yn cael ei weithredu o fewn Llywodraeth Cymru.

Y prif faterion a godwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn unrhyw gynllun uno posibl yw'r rhai a ganlyn:

- Y ffaith bod adroddiad Chitty wedi mynd i'r afael â nifer o faterion;
- Amseriad y cynnig. Roedd nifer o'r farn bod y cynllun yn cael ei ruthro, ac o'r farn na ddylai'r cynllun fynd rhagddo cyn cynnal ymgynghoriad llawn a chyn cyflwyno'r Bil treftadaeth;
- Y ffaith bod gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw rolau a swyddogaethau penodol;
- Y perygl o golli sgiliau ac arbenigedd; a'r
- Perygl o golli annibyniaeth. Cyfeiriodd nifer o dystion at bwysigrwydd yr egwyddor o gael corff lled braich mewn perthynas â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae'r dystiolaeth hon wedi'i chyhoeddi'n llawn ar wefan[1] y Pwyllgor.

Yn sgîl y dystiolaeth gynhwysfawr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylai'r cynllun uno fynd rhagddo heb ystyried yn llawn yr effaith y byddai cam o'r fath yn ei chael; hefyd, credwn na ddylai'r cynllun uno fynd rhagddo hyd nes eich bod yn fodlon bod y materion a godwyd yn y dystiolaeth a gawsom wedi'u datrys.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a'ch swyddogion wrth ichi ystyried y mater hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar eich trafodaethau maes o law.

Yn gywir,



**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair

[1] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3978